**CULTURE, WELSH LANGUAGE AND SPORT COMMITTEE**

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ymgyngoreion yr Adolygiad Pêl-droed

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

4 Ebrill 2006

Annwyl Gyfaill,

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON**
**ADOLYGIAD POLISI : PÊL-DROED YNG NGHYMRU**

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon ar bêl-droed yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2006 cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer ei adolygiad:

"*Adolygu agweddau ar bêl-droed yng Nghymru er mwyn sefydlu:*

- *Cyfeiriad pêl-droed i'r dyfodol yng Nghymru a'r blaenoriaethau ar gyfer ei ddatblygu*
- *Effeithiolrwydd y strwythur presennol sy'n cynnal pêl-droed yng Nghymru gan gynnwys:*
  - *A yw'n galluogi pawb i gyfranogi ac yn cyfrannu at agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru*
  - *Y berthynas rhwng yr FAW sydd yn gorff llywodraethol ac Ymddiriedolaeth y FAW sydd yn gangen ddatblygu*
- *Cyllid ac adnoddau ar gyfer pêl-droed"*

Hoffai'r Pwyllgor glywed barn cymaint ag sydd bosibl o bobl o wahanol feysydd perthnasol ynghylch ei adolygiad. Ar hyn o bryd mae wrthi'n derbyn tystiolaeth lafar gan nifer o sefydliadau a bydd yn parhau i wneud hyn tan ddiwedd tymor yr haf.

Hoffai'r Pwyllgor dderbyn hefyd syniadau ysgrifenedig, a 31 Mai yw'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer y rhain.

Os hoffech chi gyfrannu at yr adolygiad, byddai'n dda gennyf dderbyn eich cyfraniadau fel copi caled (i'r cyfeiriad uchod) neu drwy'r e-bost. Os mai'r olaf yw'ch dewis, byddai'n gymorth mawr imi petaech hefyd yn anfon copi at:

**Tel: 029 20825111 GTN: 1208**
**Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8238**

**E-bost / E-mail: Julia.Annand@wales.gsi.gov.uk**

Karl.gomila@cymru.gsi.gov.uk

Atodaf restr o’r bobl fydd wedi derbyn copi o’r llythyr hwn. Os gwyddoch am bobl eraill fyddai’n hoffi cyfrannu a fyddech cystal â rhoi’r llythyr hwn iddynt neu roi gwybod imi neu Karl er mwyn inni ysgrifennu’n uniongyrchol atynt. Diolch yn fawr.

Os hoffech drafod agweddau ar yr adolygiad, ffoniwch neu anfonwch e-bost os gwelwch yn dda.

**Dalier sylw:**

- Dylai’ch ymateb fod yn gryno ac yn bwrpasol ; cofiwch gynnwys rhif y cwestiwn perthnasol ar eich ymateb.
- Mae hi’n arfer gan y Pwyllgor gyhoeddi’r dystiolaeth naill ai oddi mewn i’r adroddiad, neu’n dystiolaeth atodol iddo. Ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth sydd yn ein barn ni yn bersonol, megis enw a manylion cyswllt.
- Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu’n unol â’r Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- Os bydd y sawl sy’n darparu’r wybodaeth o’r farn nad yw’r wybodaeth honno, er nad yw’n ddata personol, yn addas i’w datgelu’n gyhoeddus, cyfrifoldeb y darparwr yw pennu pa ran(nau) na ddylid ei/eu ch/cyhoeddi a dadlau’i achos yn rhesymegol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi’r dystiolaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- Pe digwydd cais am wybodaeth, efallai y bydd yn rhaid datgelu unrhyw wybodaeth a roddwyd yn dystiolaeth neu’n gyfathrebiad neu unrhyw wybodaeth arall. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a dynnwyd allan cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyhoeddi.
- A wnewch chi ddangos ai ar ran sefydliad yr ydych yn ymateb, neu fel unigolyn.

Edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Yn gywir

**Julia Annand**
Clerc
Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon

**Tel: 029 20825111 GTN: 1208**
**Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8238**

**E-bost / E-mail: Julia.Annand@wales.gsi.gov.uk**